OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 3034

# Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 2003 (Cychwyn) (Cymru) 2003

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 2003 (Cychwyn) (Cymru) 2003.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") Deddf Llywodraeth Leol 2003.

### Darpariaethau sy'n dod i rym

**2.**—(1) Daw darpariaethau'r Ddeddf a bennir yn Rhan I o Atodlen 1 ac yn Atodlen 2 i rym ar 27 Tachwedd 2003.

(2) Daw darpariaethau'r Ddeddf a bennir yn Rhan II o Atodlen 1 i rym ar 1 Ebrill 2004.

(3) Oni phennir fel arall yn Atodlen 1 neu Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, daw'r darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (1) a (2) uchod i rym at bob diben.

(4) Ac eithrio i'r graddau y cânt eu pennu yn adran 128(4)(b) i (g) o'r Ddeddf, dim ond i'r graddau y maent yn berthnasol i Gymru y dygir i rym ddarpariaethau'r Ddeddf sy'n cael eu dwyn i rym gan y Gorchymyn hwn.

### Darpariaethau trosiannol ac eithriadau

**3.** Mae Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn effeithiol at ddibenion gwneud darpariaethau trosiannol ac eithriadau mewn cysylltiad â'r darpariaethau y mae'n cyfeirio atynt.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**).

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

26 Tachwedd 2003

(**1**) 1998 p.38.